# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Chwefror 2018.

**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts,Cyng G.Jones, Cyng G.Hughes, Cyng C.Dixon Cyng C.Edwards Cyng P.Jenkins

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Edwards.

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 10fed Ionawr 2018**

Cyng Morris yn cynnig fod y cofnodion yn gywir gyda Cyng Roberts yn eilio.

**Materion yn codi:**

Mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r Cambrian News a bydd erthygl am Wefan y cyngor yn y papur wythnos nesaf.

Mae'r clerc am ddosbarthu posteri a fydd yn hysbysu'r Wefan o amgylch y gymdeithas.

**Mr Tomos Hughes (Hyfforddwr Diffibrilydd)**

Yn wyneb y diddordeb a ddangoswyd gan y cyngor i brynu diffibriliwr i'r gymuned gan ddefnyddio rhoddion ariannol a gafwyd o ganlyniad gwaith stiwardio yng Nghoed y Brenin,Ganllwyd hysbyswyd y cyngor gan Mr Tomos o'r rheolau a chostau mewn perthynas a'r offer.

Bydd yr offer yn costio tua £1350 + TAW ( gellir ei adfer) a byddant wedi cofrestu gyda'r gwasanaeth ambiwlans.

Er mwyn i'r cyngor brynu'r offer mae rhaid i ddigon o drigolion (pobl sydd yn byw mewn 0.5 milltir o Neuadd y pentref) ddod yn wirfoddolwyr cymunedol sy'n gweithredu'r offer mewn argyfwng.

Trefnir cyfarfod cymunedol yn ystod yr wythnosau nesaf i ganfod a fydd ddigon o wirfoddolwyr.

**Cynghorydd Sir.**

Biniau halen- Mae’n debyg nad yw Cyngor Gwynedd am lenwi biniau halen mewn rhai ardaloedd ar ol i’r cyngor cymuned ddymuno eu bod yn cael ei llenwi.

Os bydd angen llenwi bin halen lleol rhaid cysylltu hefo’r clerc er mwyn iddo fo cael cysylltu a Chyngor Gwynedd.

Bydd treth cyngor yn codi 4.8% am y flwyddyn ariannol 2018/19.

Bydd rhan fwyaf o’r arian ychwanegol yn cael ei benodi i’r adran yn ymwneud a gwasanaeth cymdeithasol.

Cyng Dixon yn gofyn pam mae Ffordd Lefel wedi ei chau. Clerc i wneud ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd.

Cyng Jenkins wedi derbyn gwybodaeth ynglyn y mast yn y pentref a bydd yn gwneud ymholiadau ynglyn a phwy sydd yn derbyn arian am leoliad y mast.

**Toiled Ganllwyd.**

Cytunodd y cyngor barhau eu partneriaeth a Chyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2018/19 yn ymwneud a toiledau’r pentref.

Bydd y cyngor yn talu £250 am y flwyddyn ariannol uchod.

**Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Cytunodd y cyngor barhau i fod yn rhan o’r trefniant cynnal a chadw llwybrau am y flwyddyn nesaf.

Bydd Cyngor Gwynedd yn clustnodi £577.10 i Cyngor Ganllwyd am y flwyddyn nesaf.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Ionawr 2018

Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: £5793.67

Derbyniwyd:
Rhodd gan 'always aim high' (i'w rhannu
gyda pwyllgor y neuadd a capel Hermon) £ 820.00

Taliadau: Cyflog/Paye £100.00
Mr J.Roberts (archwilydd) £50.00

Yn y Banc diwedd mis £6463.67

----------------

Mae Eluned Fon Jones (Cyngor Gwynedd) wedi cytuno fod yr archwilydd mewnol y cyngor cymuned

Mae'r cyngor wedi derbyn cadarnhad gan y 'Pensions Regulator' eu bod wedi cwblhau gwaith cofrestu pawb sydd ar gyflog er mwyn cadarnhau os y mae'nt am dderbyn pensiwn.
Nid oes neb ar lyfrau'r cyngor wedi cofrestru ar gynllun pensiwn.

Derbyniwyd rhodd o £400 gan Matt Ward yn dilyn gwaith stiwardio yn Coed Y Brenin.

**Llythyrau & E Byst.**

Ar ol darllen cynigion draft arolwg etholiad Gwynedd mae'n amlwg nad yw'r cynigion yma yn effeithio Cyngor Ganllwyd.

CNC- Derbyniwyd gwybodaeth gan CNC y bydd gwaith yn cael ei gynnal ar ffyrdd yn yr ardal yn ystod Chwerfor 2018.

Un Llais Cymru- Aelodaeth 2018/19.
Cytunodd y cyngor ymaelodi am y flwyddyn 2018/19 am £27.

Derbynwyd cerdyn gan aelodau neudd y pentref y Ganllwyd yn diolch am siec (cyfraniad) dilyn gwaith stiwardio yn Coed y Brenin.

**Unrhyw fater arall.**

Cyng Edwards wedi derbyn gwybodaeth fod goleuadau  arwyddion yr ysgol ymlaen trwy’r dydd.  Clerc i gysylltu a’r asiantaeth cefnffyrdd.